Cefnogi Busnesau yng Ngwynedd
Supporting Businesses in Gwynedd

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

# Bwletin Gwasanaeth Cefnogi Busnes Gwynedd 24.01.2023

Mae hwn yn fersiwn Gymraeg o ddau e-bost sydd yn cael eu gyrru allan, mae fersiwn Saesneg yn dilyn – gellir gweld holl fwletinau sydd wedi eu gyrru ar: https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19

This is the Welsh version of two emails sent out, the English version will follow – all sent bulletins can be accessed on: https://www.gwynedd.llyw.cymru/businesscovid19

# CEFNOGAETH: Entrepreneuriaid ifanc yng Nghymru

Mae blog diweddaraf Banc Datblygu Cymru yn taro golwg ar peth o'r gefnogaeth sydd ar gael i entrepreneuriaid ifanc yng Nghymru, o gyngor busnes a gweithdai i fenthyciadau a chyllid grantiau. I ddarllen y blog, ewch i:

http://bit.ly/3ZWYdyN

# DIOGELWCH: Seibergadernid – Diogelu Eich Busnes, Diogelu Eich Dyfodol 1 Chwefror 2023

Bydd Cyflymu Cymru i Fusnesau yn cynnal digwyddiad ymwybyddiaeth seiberdroseddu mewn partneriaeth â Chanolfan Seibergadernid yng Nghymru ac Uned Troseddau Cyfundrefnol Rhanbarthol Tarian, ar 1 Chwefror 2023, (10:00am-12:00pm). Am fwy o wybodaeth, ac i archebu, ewch i:

https://bit.ly/3R37xx5

# CYFLE: Consesiynau Arlwyo Eisteddfod 2023

Mae gan Eisteddfod Genedlaethol Llŷn ac Eifionydd gyfleoedd arlwyo a manwerthu ar gael trwy dendr – dyddiad cau ar gyfer cynigion tendr yw 12:00pm 10 Chwefror 2023. Mae manylion ar gael ar:

https://eisteddfod.cymru/2023-consesiynau-arlwyo

Mae cyngor gan Busnes Cymru am sut i dendro ar gyfer cytundeb ar gael ar:

https://businesswales.gov.wales/cy/cyflwyno-tendr-am-gontract

# DIGWYDDIAD: Canva | TikTok | Instagram – cyrsiau am ddim

Mae Busnes@LlandrilloMenai, mewn partneriaeth â Hwb Menter, wedi trefnu cyfres o weithdai Cyfryngau Cymdeithasol wyneb yn wyneb AM DDIM yn ystod yr wythnosau nesaf, i'w cynnal yn Busnes@ GLLM, Coleg Meirion-Dwyfor, Dolgellau LL40 2SW:

- 1 Chwefror 2023 (4:00pm-6:00pm) Canva ar gyfer busnes
  https://canvadolgellau.eventbrite.co.uk

- 15 Chwefror (4:00pm-6:00pm) Meistroli straeon Instagram
  https://instagramdolgellau.eventbrite.co.uk

- 1 Mawrth 2023 (4:00pm-6:00pm) Dechrau arni ar TikTok https://tiktokdolgellau.eventbrite.co.uk

# ARIANNU: Datgarboneiddio cynaliadwy ardaloedd cadwraeth Parc Cenedlaethol Eryri

Mae grantiau bellach ar gael i gynorthwyo gyda gwelliannau effeithlonrwydd ynni a/neu uwchraddio thermol eiddo cyhoeddus, cymunedol a masnachol o fewn Ardaloedd Cadwraeth dynodedig y Parc Cenedlaethol. Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno'r 'Ffurflen Datgan Diddordeb' yw 12:00pm 6 Chwefror 2023. Am fwy o wybodaeth, ewch i:

http://bit.ly/3XP6RgX

# YMGYRCH: Gadewch i ni roi hwb i wario'n lleol tra'n dathlu Dydd Santes Dwynwen #CalonYGymuned #SantesDwynwen

Gyda Dydd Santes Dwynwen yn cael ei ddathlu yfory, 23 Ionawr 2023, gwnewch y mwyaf o becyn GIFs a logos Prynu'n Lleol, sydd ar gael i'w lawrlwytho ar:

https://linktr.ee/prynulleol

---

Mae mwy o wybodaeth defnyddiol i'w gael o:

# Cyngor Gwynedd – Cefnogaeth i Fusnes

https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19
https://twitter.com/BusnesGwynedd

# Rhwydwaith Busnes Gwynedd

https://www.gwyneddbusnes.net/Hafan
https://twitter.com/gwyneddbusnes

## Busnes Cymru

https://businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/cy/
https://twitter.com/_busnescymru

## Busnes@llandrillomenai

https://www.facebook.com/BusnesatLlandrilloMenai/posts
https://twitter.com/busnesLLM

## FSB Cymru

https://twitter.com/FSB_Wales

## Croeso Cymru

https://twitter.com/croesocymrubus

Cofrestru i dderbyn y newyddion diweddaraf
https://bit.ly/3klWPAU

---

Os nad ydych yn dymuno derbyn yr e-byst hyn bellach, os oes gennych gwestiwn, neu angen cyngor:
E-bostiwch busnes@gwynedd.llyw.cymru